



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Ar y trywydd iawn i ddarparu dros 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol erbyn 2021

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy.

Rydym wedi darparu dros 970 o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy

Pam mae'n bwysig

- ⦿ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant*, gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- ⦿ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i *Bobl a'r Amgylchedd* - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tldi tanwydd yn ein cymunedau.
- ⦿ Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- ⦿ Mae'n dda i'r *Economi* - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

Mesur Llwyddiant

+ 315

Tai Fforddiadwy Ychwanegol
yn ystod 2019/20




Egluro'r Canlyniadau

Perfformiad o ran Tai Fforddiadwy – Perfformiad Cyffredinol o fis Ebrill 2016 971 o Dai Fforddiadwy wedi'u darparu

Ardaloedd Gweithredu fel % o Boblogaeth y Sir

- 19% = Caerfyrddin Wledig a Threfi Marchnad
- 22% = Caerfyrddin a'r Gorrlewin
- 17% = Rhydaman a Dyffryn Aman
- 42% = Llanelli a'r Cylch



Cynnydd a wnaed

- ⊙ Fel rhan o *Gynllun Tai Fforddiadwy 2016-2021* hyd yn hyn rydym wedi darparu **971** o dai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y canlynol:-

217: *Asiantaeth Gosod Syml*

(32: 16/17; 63: 17/18; 61: 18/19; 61:19/20)

222: *Tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto*

(28: 16/17; 63: 17/18; 67: 18/19; 64:19/20)

238: *Prynu tai'r sector preifat*

(45: 16/17; 69: 17/18; 81: 18/19; 43:19/20)


189: *Datblygiadau tai newydd*

Cymdeithasau Tai

(45: 16/17; 20: 17/18; 17: 18/19; 107:19/20)

105: *Cyfraniad Adran 106 gan Ddatblygwyr*

(23: 16/17; 20: 17/18; 21: 18/19; 41:19/20)



- ⊙ Rydym wedi prynu **208** o dai sector preifat i gynyddu *stoc dai* y *Cyngor ei hun*. Prynwyd **30** o dai yn uniongyrchol hefyd gan Gymdeithasau Tai Bro Myrddin a Coastal.
- ⊙ Mae gennym fel Cyngor bump o ddatblygiadau tai newydd ar safleoedd Dylan, Garreglwyd, Teras Glanmor, Gwynfryn a Maespiode. Bydd y datblygiadau hyn yn creu 114 o dai fforddiadwy newydd.
- ⊙ Drwy'r system gynllunio (Adran 106) mae **208** o dai wedi'u darparu ar gyfer [Perchentaeth Cost Isel](#) ac wedi'u henwebu i bobl leol yr oedd angen help arnynt i brynu eu tai eu hunain.
- ⊙ Rydym yn bwriadu adeiladu bron i 1,000 o dai cyngor ychwanegol.
- ⊙ Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol [adroddiad](#) ar gynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r adroddiad yn nodi: "*Mae rhaglen adeiladu tai newydd Sir Gaerfyrddin yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y sector tai cymdeithasol*"
- ⊙ Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru [adroddiad ar yr amcan llesiant hwn](#) a chanfod bod 'y *Cyngor yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol*'



Adeiladu dros 30 o dai cyngor newydd ar un o'n safleoedd cyntaf sef Dylan yn Llanelli



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
Y Cyngorydd Linda Evans